# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 11 Hydref 2011** | |
| Amser: | **08:30 - 08:50** | |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**David Melding, Ddirprwy Lywydd** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion fel rhai a oedd yn barod i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Cyhoeddodd Arweinydd y Tŷ y bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ynghylch Dulliau Llywodraeth Cymru i Sbarduno'r Economi ddydd Mercher.

Ddydd Mawrth, bydd y cyfnod pleidleisio yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes na fyddai'r cyfnod pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y ddadl fer.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Trefnodd y Pwyllgor Busnes amser ar gyfer yr eitem a ganlyn:

**Dydd Mawrth 18 Hydref 2011**

- Dadl fer a ohiriwyd ers 5 Hydref 2011 – Dafydd Elis-Thomas: Diwygio Amodau Deiliadaeth y Sector Rhentu Preifat (30 munud)

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3(iv) Dadleuon gan Aelodau unigol

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cynigion heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd gan Aelodau unigol gan ddewis y cynnig a ganlyn i'w drafod ddydd Mercher 19 Hydref 2011:

> **NNDM4825 Christine Chapman (Cwm Cynon), Julie Morgan (Gogledd Caerdydd), Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru), Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
>
> *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*
>
> *Yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad ei hystyried a fyddai'n cael gwared ar y gallu i ddefnyddio 'cosb gyfreithlon' fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn.*

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y broses o ddewis a blaenoriaethu cynigion yn y dyfodol, o ystyried faint o ddiddordeb a oedd gan Aelodau. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ac i drafod y mater eto ar ôl hanner tymor.

**UNRHYW FUSNES ARALL**

Gofynnodd Peter Black am ganllawiau i sut mae'r Llywydd yn penderfynu a ddylid derbyn cwestiwn brys ai peidio. Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes nad oedd gofyn iddi roi rheswm dros ei phenderfyniad i ganiatáu neu i wrthod cwestiwn brys ond nododd fod angen i gwestiynau fod yn rhai brys ac o bwys i'r cyhoedd.